**COFNODION**

**Dyddiad** **30 Ionawr 03**
**Amser** **9.00am – 12.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog Datblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies - Cadeirydd Gweithredol | Caerffili |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Emyr Roberts | EPD |
| Nick Batey | Uned Band Eang Cymru |
| Mike Phelps | EcAD |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Ann Beynon | British Telecom |
| Owen Evans | British Telecom |
| Mike Parker | Total Network Solutions |
| Eddie Piper | Total Network Solutions |
| Yr Athro Mike Tedd | Pwyllgor Cynghori Cymru ar Delathrebu |
| Neil Davies | Gwneuthurwr ffilmiau annibynnol |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |
| Debra Carter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Yn absenoldeb y Cadeirydd etholwyd Ron Davies i gadeirio'r cyfarfod.
2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther a Christine Chapman. Cymerodd Delyth Evans le Christine Chapman.

**Eitem 2: Polisi Band Eang yng Nghymru**

**EDC 01-03(p1)**
**EDC 01-03(p2)**
**EDC 01-03(p3)**
**EDC 01-03(p4)**
**EDC 01-03(p5)**

1. **Cyflwynodd y Gweinidog Datblygu Economaidd** ei bapur a dywedodd mai diweddariad ffeithiol oedd y papur a oedd yn disgrifio'r prif weithgareddau a oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Dywedodd fod llawer yn digwydd a chroesawodd y camau gan BT i uwchraddio cyfnewidfeydd a gostwng prisiau. Cyfeiriodd at y cynnydd a wnaed ar lefel Cymru a'r DU i hybu'r defnydd o Fand Eang a'r £15m ychwanegol y llwyddwyd i'w sicrhau ar gyfer Band Eang Cymru, ar ben y £100m a gafwyd o'r blaen.
2. Trafododd yr Aelodau ddiffiniad y term Band Eang. O safbwynt technegol dull o drosglwyddo data oedd band eang a oedd yn galluogi cyfradd drosglwyddo data uchel. Fodd bynnag, ar lafar gwlad, roedd y gair wedi dod i olygu ADSL (trosglwyddydd) (Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur) - sy'n trosglwyddo 512 kbs mewn un cyfeiriad a 256 kbs neu lai mewn cyfeiriad arall. Gellid dadlau ai 'Band Llydan' yw hyn yn dechnegol ond derbyniodd yr Aelodau ei fod wedi dod i olygu math o gynnyrch. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau hefyd mai'r lefel trosglwydd isaf oedd hyn ac roedd yn bwysig peidio â cholli golwg ar y ffaith fod cyfraddau uwch o lawer yn bosibl - a'u bod yn hanfodol ar gyfer trosglwyddo deunydd fideo.
3. Dywedodd Ann Beynon fod BT (lle'r oedd hynny'n bosibl) ar hyn o bryd yn anelu at gynnig dewis o wasanaeth i gwsmeriaid, gan ddefnyddio gwifrau copr, o 512kbs i 2 Mbs. Dywedodd na allai wneud unrhyw sylw ynghylch pryd y byddai BT yn gallu cynnig llinell danysgrifio ddigidol gymesur (SDSL) gan fod hynny'n dibynnu ar ganlyniadau profion sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Pwysleisiodd

fod angen i BT weithredu'n fasnachol, o dan reoliadau Oftel, ac felly ni allai sybsideiddio gwasanaethau er mwyn cynyddu'r galw.

4. Wrth ateb cwestiwn am amcanion Band Eang Cymru, dywedodd y Gweinidog mai'r cyrhaeddnod oedd sicrhau cynnydd o 30 y cant yn y gwasanaethau Band Eang daearol fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu 310,000 o dai ychwanegol, a 67,000 o fusnesau ychwanegol ar-lein, ymhell uwch law'r twf y gellid ei ddisgwyl erbyn 2007 o ganlyniad i rymoedd naturiol y farchnad. Y cyfraddau cyfredol oedd 63 y cant ar lefel y DU a 31 y cant ar lefel Cymru.
5. Cyfeiriwyd at yr angen am amrywiaeth o dechnolegau i fodloni'r gwahanol ofynion ar gyfer darparu Band Eang mewn ardaloedd gwahanol. Mynegwyd y farn y dylai strategaeth Band Eang Cymru nodi'r technolegau angenrheidiol ym mhob ardal. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog fod dadansoddiad o'r fath wedi'i wneud a'i gyflwyno yn adroddiad Analysys i Fand Eang ymhobman yng Nghymru. Roedd hwn yn pennu lle y gallai ffibr neu gebl gyflwyno Band Eang a lle y byddai angen edrych am ddulliau eraill o'i gyflwyno. Pwysleisiodd mai'r allwedd ar gyfer darpariaeth oedd symbylu'r galw.
6. Mynegwyd pryder ynghylch hyfywedd busnesau a oedd wedi buddsoddi mewn Band Eang a'i bod yn bwysig sicrhau y gallent dalu'r costau uwch o'i osod. Cyfeiriodd y Gweinidog at yr angen i werthuso effaith Band Eang. Nododd hefyd fod costau'n amrywio a pha mor bwysig oedd hi i fusnesau ddeall sut y gallent elwa o'r ffaith fod Band Eang ar gael iddynt.
7. Nododd yr Aelodau fod cost cysylltu yn hanfodol er mwyn cael mwy o bobl i ddefnyddio Band Eang a gofynnwyd sut y gallai'r Gweinidog sicrhau bod y gost yn parhau i fod yn isel. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog mai Oftel oedd yn gosod y fframwaith ar gyfer gweithredu, ac nid oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar hyn ac, yn wir, nid oedd o'r farn ei fod yn briodol iddynt wneud hynny.
8. Mynegodd yr Aelodau rywfaint o syndod y byddai'r holl awdurdodau lleol wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith craidd mor fuan â diwedd Mawrth 2003 ac y byddai 50 y cant o ysgolion wedi'u cysylltu erbyn hynny hefyd. Ond os oedd modd gwneud hyn, yna pam nad oedd Band Eang ar gael i bob defnyddiwr. Esboniodd y Gweinidog fod y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes yn ei hanfod yn rhwydwaith craidd y byddai awdurdodau yn cysylltu ag ef, gan ddefnyddio llinellau BT, a bod hyn yn weddol syml yn dechnegol. Mae'r awdurdodau wedyn yn gyfrifol am gyflwyno'r rhwydwaith i ysgolion a Chanolfannau Dysgu Gydol Oes eraill, yn ogystal ag i'w swyddfeydd a'u lleoliadau eu hunain; gan ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau band eang rhwng pwyntiau. Gall y gost a'r cymhlethdod amrywio'n sylweddol, yn enwedig i ysgolion gwledig. Roedd yn fater mwy cymhleth o lawer i gysylltu ysgolion unigol ac yn arbennig yr ysgolion hynny mewn ardaloedd anghysbell.
9. Holwyd am effaith rheoliadau cymorth gwladol ar ymdrechion y Cynulliad i hyrwyddo Band Eang. Dywedodd swyddogion fod yn rhaid cynnig unrhyw ffurf ar gymhorthdal ar sail deg a hygyrch ac roedd hyn yn cael ei weithredu drwy'r rheolau caffael cyhoeddus. Defnyddiwyd dulliau cymeradwyo cymorth gwladol yr

Adran Diwydiant a Masnach hefyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

10. Cyflwynodd **Ann Beynon Bapur BT**, a dywedodd fod y rhwydwaith ffibr a oedd ar gael yng Nghymru yn well na'r hyn oedd ar gael yn Sweden. Cyfeiriodd at y 33 o gyfnewidfeydd a oedd eisoes yn gallu darparu ADSL a dywedodd y byddai 11 arall ar-lein yn fuan o ganlyniad i BT yn gostwng y cyrhaeddnod ar gyfer cysylltedd. Byddai hyn yn sicrhau bod gwasanaethau ADSL ar gael i 110,000 o eiddo ychwanegol yng Nghymru. Dangosodd sut y bu i bartneriaethau symbylu galw band eang lwyddo i gynyddu'r defnydd o fand eang, yn fwyaf nodedig yng Nghaerdydd, a sut yr oedd BT yn gweithio gydag 8 awdurdod lleol ledled Cymru i symbylu'r galw. O safbwynt BT roedd Cymru'n cynnwys 3 ardal: Band 1, lle'r oedd cyfnewidfeydd ar fin cael eu gweithredu drwy'r ADSL neu eisoes yn gwneud hynny; Band 2, lle y gallai ddigwydd o fewn 12-24 mis a gellid cyflymu hyn drwy gymhorthdal i helpu i hyrwyddo'r cyfnewidfeydd; a Band 3, lle mai ychydig o obaith oedd i BT osod ADSL fforddiadwy o fewn y gyfundrefn reoleiddiol bresennol heb i'r sector cyhoeddus ymyrryd. Roedd nifer o dreialon yn mynd rhagddynt i ddarparu atebion technegol gwahanol. Dyma lle y dylid ffocysu arian cyhoeddus. I gloi dywedodd mai un o'r materion allweddol i'r Llywodraeth oedd penderfynu beth oedd bwysicach - argaeledd neu gystadleuaeth.
11. Croesawodd yr Aelodau bapur BT. Ystyrient mai dyma'r unig ddogfen oedd yn cynnig dadansoddiad strategol o'r sefyllfa a'r ymyrraeth oedd yn ofynnol yn y dyfodol. Holwyd sut yr oedd strategaeth y Gweinidog yn cysylltu â'r 3 Band a nodwyd y dylai Band Eang fod ar gael o leiaf ymhob parc busnes yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog fod y 3 Band yn sail i'w ddadansoddiad a bod angen dulliau gwahanol o weithredu mewn ardaloedd gwahanol. Roedd yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu Band Eang mewn parciau busnes. Ond hyd yn oed o fewn y parciau hyn dywedodd fod rhai ohonynt y math o ddiwydiant lle'r oedd potensial y galw yn gyfyng iawn mewn gwirionedd.
12. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar rôl BT mewn perthynas â'r rhwydwaith ffibr optegol a mynegwyd pryder nad oedd contractwyr preifat yn gallu cael mynediad iddo oherwydd diffyg gwybodaeth. Dywedodd Ann Beynon fod darparwyr gwasanaeth y Rhyngrwyd yn ymwybodol iawn o'r galw mewn ardal ac nid oedd yn bosibl i BT guddio'r wybodaeth hon.
13. Gofynnodd yr Aelodau pam ei bod yn bosibl datblygu rhwydwaith o'r holl awdurdodau lleol ond heb ehangu Band Eang i'r holl defnyddwyr mewn ardal. Dywedodd Ann Beynon fod hyn yn rhannol oherwydd fod rhywfaint o'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio gwifr copr. Roeddent yn ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu rhwydweithiau, ac o bosibl defnyddio cyfnewidfeydd bach, a fyddai o bosibl yn cysylltu â mwy o ddefnyddwyr. Roeddent hefyd yn ystyried datblygu systemau diwifr ar gyfer ardaloedd lle nad oedd yn ymarferol gosod ceblau optig ffibr. Roedd BT yn amcangyfrif y byddai ADSL yn ateb tua 70-80 y cant o'r galw a'r gweddill yn defnyddio cymysgedd o dechnolegau gan gynnwys cyfarpar llai yn y cyfnewidfeydd, cysylltiadau diwifr a lloeren. Roedd ystod o opsiynau ar gyfer cyfuno'r amrywiol dechnolegau, o bosibl drwy gyfres o

'gyfnewidfeydd bach' yn gweithredu fel pwyntiau dosbarthu. Un broblem, serch hynny, oedd y ffaith fod cysylltiadau copr presennol yn cysylltu yn ôl i gyfnewidfeydd ffôn ac efallai na fyddai'n hawdd eu harallgyfeirio i'r cyfnewidfeydd bach hyn.

14. Ymhelaethodd **Mike Parker (Groupe-Pathfinder Ltd)** ar y papur a baratowyd gan **Total Network Solutions Ltd**. Dywedodd fod Band Eang drwy gysylltiadau diwifr yn un o amrywiaeth o ddulliau o gyflwyno Band Eang. Roedd yn cydnabod manteision ADSL, yn arbennig ei ddefnyddio yn y cartref, ond roedd o'r farn bod yr ansawdd yn isel, yn arbennig am nad oedd yn ddau-gyfeiriol. Roedd cysylltiadau diwifr, ar y llaw arall, yn cynnig darlledu o ansawdd da a sain uchel ymhob cyfeiriad.
15. Cyfeiriodd at yr ocsiwn a oedd ar fin digwydd o drwyddedau mynediad diwifr 3.4 GHz a'u pryderon ynghylch y ffordd yr oedd ardaloedd o fewn y DU wedi'u pennu gan Asiantaeth Radiogyfathrebu yr Adran Diwydiant a Masnach. Mynegodd bryder hefyd ynghylch y ffaith fod dyrannu'r contractau hyn yn digwydd ar sail y cynnig uchaf yn unig ac nad oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r math o wasanaeth fyddai'n cael ei ddarparu. Yn wir, nid oedd yn ofynnol i'r gweithredydd llwyddiannus ddefnyddio'r amledd hwn.
16. Dywedodd **Neil Davies o Dai4 Films, gwneuthurwr ffilmiau annibynnol** fod ei fusnes yn mynd i baratoi ffilmiau fideo ar gyfer cwmnïau fel Channel 4 ac ITV ac ar gyfer eu hallforio. Roeddent wedi'u lleoli yng Nghymru ond yn ei chael hi'n anodd iawn gwneud busnes yma oherwydd diffyg capasiti sain uchel ar y Rhyngrwyd. Cyfeiriodd at Digital Matrix, consortiwm o tua 50 o fusnesau a oedd ym ymwneud â'r diwydiant cynhyrchu ffilmiau ac a oedd yn gweithio ar tua 30 o brosiectau. Roedd cyfle iddynt werthu'n fyd-eang ac roeddent am weithio o Gymru. Fodd bynnag, roedd angen gallu symud ffeiliau, ymgymryd â gwaith golygu o bell a rhwydweithio rhwng cwmnïau. Roedd yn anodd gwneud hyn yng Nghymru ac roedd angen swyddfa arnynt o hyd yn Llundain. Roedd prinder y dechnoleg ar gael yn golygu bod cwmnïau mewn ardaloedd megis y De Ddwyrain o dan anfantais dechnegol amlwg. Ac eto i gyd roedd cyfle amlwg i greu diwydiant yma.
17. Ymhelaethodd **Mike Tedd o WACT** ar ei bapur gan ddweud nad oedd un ateb i anghenion Band Eang Cymru a bod angen cael amrywiaeth o dechnolegau. Dywedodd bod ADSL yn gyfaddawd derbyniol ar gyfer ardaloedd poblog ond mai lloeren oedd yr unig ateb mewn ardaloedd anghysbell. Roedd y capasiti ar gyfer hyn yn gyfyngedig fodd bynnag, a dylid ei neilltuo felly ar gyfer yr ardaloedd hynny lle ceir y galw mwyaf. Byddai cysylltiadau di-wifr yn opsiwn pwysig yn yr ardaloedd hynny lle gellid cael ‘llinell weld agos’. Gallai hyn ganiatáu i un mast wasanaethu Ynys Môn i gyd neu gymoedd cymharol syth fel cymoedd Eryri.
18. Adleisiodd y pryderon a fynegwyd ynghylch gwerthu'r band amledd 3.4 GHz. Nid oedd y rhanbarthau y penderfynwyd arnynt yn ystyried ffiniau Cymru o gwbl. Roedd y Canolbarth wedi'i gynnwys gyda’r rhan fwyaf o Ganolbarth Lloegr, Swydd Lincoln ac arfordir Dwyrain Lloegr. Roedd y Gogledd yn rhan o ranbarth a

oedd yn ymestyn i arfordir Dwyrain Lloegr a Gogledd Swydd Efrog. Roedd y ffaith nad oedd unrhyw ofynion gwasanaethu yn golygu y byddai'n bosibl i ymgeisydd llwyddiannus gynnig gwasanaethau mewn rhai rhannau o Loegr yn unig, gan anwybyddu Cymru y gyfangwbl. Byddai'n bosibl iddynt beidio darparu unrhyw wasanaeth o gwbl hyd yn oed: er mwyn atal cystadleuaeth efallai, neu er mwyn gweld a oedd gwerth yr ased yn codi.

19. Mewn ymateb i gwestiwn am effaith y tywydd ar drosglwyddiadau diwifr, dywedodd Mike Parker bod glaw yn effeithio arnynt a'i bod yn bwysig dylunio systemau a oedd yn gallu ymdrin â hynny. Y ffactorau allweddol oedd cryfder, yn hytrach na chyfaint y glaw, a gellid ymdrin â hyn drwy newid lefel grym y system. Roedd glaw yn llai tebygol o effeithio ar fandiau amledd is. Dywedodd nad oedd y sefyllfa yr un fath â chyda'r systemau radio llais gan fod yn rhaid i'r rhain weithredu oddi fewn i adeiladau; fel arfer roedd Band Eang yn gallu dibynnu ar drosglwyddiadau ‘llinell weld’.
20. Cafwyd rhywfaint o drafod ar gost gwahanol ddulliau o drosglwyddo a dywedwyd ei bod yn costio £50 y fetr i osod ffibr optig. Mae hyn yn gymharol ddrud o’i gymharu â system ddiwifr ond os gellir gosod y ceblau wrth i waith adeiladu arall fynd yn ei flaen, fel a ddigwyddodd yn achos adeiladu'r A55, mae’n bosibl gwneud arbedion sylweddol. Nododd un aelod ei bod yn bosibl bellach gosod ffeibrau optig gweiniog trwy bolion telegraff, fel oedd bob amser wedi cael ei wneud ar gyfer gwifrau copr, ac er nad oedd hyn mor foddhaol â ffeibrau dwythell, roedd yn llawer rhatach.
21. Mynegodd yr aelodau bryder mawr am y trefniadau ar gyfer gwerthu'r drwydded 3.4 GHz. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi pwyso ar yr Adran Diwydiant a Masnach ar y mater hwn ond nad oedd wedi llwyddo i fynd â'r maen i'r wal. Dywedodd ei fod yn siomedig, a dweud y lleiaf, gyda'r cyhoeddiad ynghylch y 'map' ond mai dim ond yn yr ychydig ddyddiau diwethaf yr oedd wedi clywed y cyhoeddiad. Dywedodd y byddai'n darganfod mwy am y rhesymau y tu ôl i’r penderfyniad, ac yn darganfod pam ei bod yn ymddangos bod yr Alban wedi cael canlyniad mwy ffafriol. Byddai'n adrodd ar hyn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor Datblygu Economaidd os nad ynghynt. Dywedodd ei fod ef a Phrif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ynghylch y mater hwn. Dim ond un rhan o raglen Band Eang Cymru oedd hon, fodd bynnag, ac nid oedd yn cael effaith sylfaenol ar y strategaeth gyffredinol. **[Gweithredu: Y Gweinidog DE]**
22. Os nad oedd yn bosibl gwyrdroi'r penderfyniad, dywedodd yr Aelodau y dylai Cymru ystyried gwneud cais am y trwyddedau ei hun, gyda'r Awdurdod Datblygu yn gweithredu fel asiant efallai ac yn is-gontractio wedyn i gwmnïau eraill.
23. I gloi'r drafodaeth, cytunodd y Pwyllgor y dylid cymryd y camau canlynol:

a. dylai'r Pwyllgor fynegi anfodlonrwydd difrifol ynghylch y rhanbarthau trwyddedau 3.4 GHz arfaethedig a rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r Gweinidog Datblygu Economaidd yn ei ymdrechion i ddatrys y mater hwn;

b. dylai'r Pwyllgor ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol drafod y mater gyda'r Adran Diwydiant a Masnach; **[Gweithredu: Cadeirydd/Y Clerc]**
c. dylai'r Pwyllgor hysbysu Aelodau Seneddol Cymru am ddifrifoldeb y sefyllfa a'u hannog i gysylltu â'r Adran Diwydiant a Masnach ynghylch y mater hwn; **[Gweithredu: Cadeirydd/Y Clerc]**
d. os nad oedd yn bosibl gwyrdroi'r penderfyniad ynghylch rhannu'r trwyddedau dylai'r Gweinidog edrych ar opsiynau megis caniatáu i'r Awdurdod Datblygu geisio eu prynu, gan gynnig is-drwyddedau i gwmnïau lleol efallai, er y cydnabyddir y byddai'n anodd gwneud hynny mewn ardal sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru; **[Gweithredu: Y Gweinidog DE]**
e. dylid gwahodd Gweinidog e-Fasnach yr Adran Diwydiant a Masnach, Mr Stephen Timms, i gwrdd â'r Pwyllgor er mwyn egluro'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad. **[Gweithredu: Cadeirydd/Y Clerc]**

24. Yn dilyn y drafodaeth ar y papurau, cytunodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad yn crynhoi canfyddiadau ei ymchwiliadau i Fand Eang a'i farn am y materion polisi pwysicaf. **[Gweithredu: Cadeirydd/Y Clerc]**

25. Nodwyd mai adroddiad cymharol fyr fyddai hwn, gan nad oedd llawer o amser i'w gynhyrchu. Dywedodd yr Aelodau mai'r prif faterion yr hoffent weld eu cynnwys yn yr adroddiad oedd:

- yr angen am ddull strategol o fynd ati i ddatblygu Band Eang gyda'r nod o sicrhau ei fod ar gael i ganran uchel o'r boblogaeth a'i fod yn seiliedig ar amrywiaeth o dechnolegau;
- na ddylid bod yn or-uchelgeisiol ac y dylid cydnabod bod ADSL yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr, yn y tymor byr o leiaf;
- y cydbwysedd rhwng cael cystadleuaeth yn y sector a sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i bawb. Gwaith y sector cyhoeddus oedd sicrhau bod y gwasanaeth ar gael, yn ardaloedd Band 3 yn arbennig;
- pwysigrwydd bod yn glir ynghylch pa dechnolegau oedd fwyaf priodol ym mhob ardal ac ymhen faint o amser y byddant ar gael;
- bod grym y farchnad yn debygol o gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ym Mandiau 1 a 2 ac mai'r mater pwysicaf oedd darparu cymaint o gefnogaeth â phosibl ar gyfer ardaloedd Band 3 er mwyn cau'r bwlch mewn cymaint o ardaloedd o Gymru ag sy'n bosibl;

- bod angen symbylu'r galw ar bob lefel.

26. Wrth ddwyn y drafodaeth i ben, nododd y Gweinidog mai fersiwn ddiweddarach oedd ei bapur, i bob pwrpas, o gynllun gweithredu ar gyfer ymdrin â methiannau yn y farchnad. Roedd y ffaith bod BT wedi gostwng y cyraeddnodau yn gam yn y cyfeiriad cywir ac roedd yn gobeithio y byddai pwysau masnachol a gwleidyddol pellach yn parhau i wella'r sefyllfa.

Dywedodd fod llawer o'r wybodaeth fanwl yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdani wedi'i chynnwys yn adroddiad gwreiddiol Analysys. Roedd yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r maes a dywedodd y byddai ei swyddogion yn falch o gydweithio gyda'r Clerc er mwyn paratoi adroddiad.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd gan gynnwys adroddiadau economaidd chwarterol**

**EDC 02-03(p6)**
**EDC 02-03(p7)**
**EDC 02-03(p8)**

1. Dywedodd y Gweinidog mai adroddiad cynnydd yn unig oedd yr adroddiad ar Selsa y cafwyd oedi yn ei gylch.
2. Mynegodd yr Aelodau bryder bod y data ym mhapurau'r Gweinidog yn dangos bod graddfa'r cynnydd yn nifer y swyddi yn llawer is yn ardal Amcan 1 nag yng ngweddill Cymru. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus ond roedd y sector gynhyrchu yn colli swyddi ac nid oedd yr aelodau'n credu bod y duedd hon yn gynaliadwy. Dywedodd y Gweinidog fod y newidiadau hyn yn debyg i'r newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU a dywedodd ei bod yn anochel bod y cynnydd mewn gwariant ar y sector iechyd wedi arwain at fwy o swyddi. Ychwanegodd fod adroddiadau blaenorol yr LFS wedi dangos mwy o gynnydd yn nifer y swyddi yn ardaloedd Amcan 1.
3. Eglurodd y Gweinidog mai nid y ffatri Alcoa a oedd ar fin cau yn Abertawe oedd y rhan o'r cwmni a dderbyniodd grant Cymorth Dewisol Rhanbarthol fis Rhagfyr diwethaf. Rhoddwyd y grant i’r felin rolio a oedd yn rhan ar wahân o'r Cwmni. Heb y grant RSE mae'n debygol y byddai swyddi wedi'u colli yn y felin rolio yn ogystal ag yn y ffatri a oedd ar fin cau.
4. Ymhelaethodd y Gweinidog ar y rhan o'i adroddiad a oedd yn ymwneud â'i ymyriad ym mater porth y Porthladd Sych yn Aberdaugleddau. Dywedodd y tynnwyd ei sylw at y mater, bod swyddogion wedi siarad â'r Awdurdod Datblygu wedi hynny a bod yr Awdurdod wedi cael trafodaethau gyda'r cwmni.
5. Cafwyd trafodaeth ynghylch y cyflenwad nwy yn Aberdaugleddau. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hanfodol, yn ei farn ef, cyflwyno cyflenwad nwy ehangach yn y Gorllewin, ond roedd yn deall na allai hynny ddigwydd hyd nes bod y biblinell yn cael ei hymestyn i Aberdaugleddau. Roedd ef a'r Prif Weinidog wedi cael amryw o drafodaethau ar y mater hwn gyda chwmnïau ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at y cyfleodd i chwilio am gyflenwadau nwy newydd yn y Gorllewin a'r angen posibl am adnoddau ychwanegol ar y tir. Awgrymwyd y gallai'r Gweinidog gael rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

**Eitem 4: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

1. Dywedodd Debra Carter fod yr Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen darparu mwy o wasanaethau ymchwilio ar gyfer y pwyllgorau. Yn dilyn ymchwiliad o'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chynulliad Llundain a phroses recriwtio sylweddol, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn eu swyddi bellach ar roeddynt yn gallu darparu gwasanaeth briffio ar gyfer pwyllgorau. Roedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd eisoes wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn.
2. Croesawodd y Pwyllgor y gwasanaeth estynedig a dywedodd yr aelodau eu bod wedi'u plesio gyda'r gwasanaeth briffio yr oeddent wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Gofynnodd y Clerc i'r aelodau ei hysbysu pa bynciau yr hoffent dderbyn gwasanaeth briffio ychwanegol arnynt.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 01-03 Cofnodion (Drafft)**
**EDC 02-03 Camau i'w cymryd**

1. Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.
2. **12 Mehefin (eitem 3.3);10 Gorffennaf (eitem 6.4); 14 Tachwedd (eitem 2.8).** Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog gynnwys yr eitemau hyn ar gamau i'w cymryd yn ei adroddiad ysgrifenedig nesaf.
3. **Cynllun Cofrestru Statudol Bwrdd Croeso Cymru.** Eglurodd y swyddogion na fyddai'n bosibl darparu manylion pellach ynghylch cost gweithredu'r cynllun hyd nes eu bod yn gwybod pa opsiwn a oedd fwyaf tebygol o gael ei fabwysiadu.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**